

## COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd dros y rhwydwaith fideo am 10.00 ar 18 Hydref 2016**

### Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)  
Yr Athro Jacqui Hare

Archwilwyr: Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr  
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg  
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd  
Nia Brown, Swyddog Datblygu  
Suzanne Lewis, Uwch Swyddog Gweinyddiaeth

Ymddiheuriadau: Yr Athro Iwan Davies  
Gareth Eyres  
Dr Rhodri Llwyd Morgan  
Gareth Pierce

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso ac ymddiheuriadau</b>	1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd croeso i Carol Warburton o'r Archwilwyr Mewnol. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod. 1.3 Gan nad oedd cworwm yn bresennol penderfynwyd cynnal y cyfarfod a chadarnhau unrhyw argymhellion a'r cofnodion mewn cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i drafod y cyfrifon blynyddol cyn y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 23 Tachwedd 2016.		
<b>2. Datganiadau o</b>	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>ddiddordeb</b>			
<b>3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol</b>	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 23 Mai 2016, fel cofnod cywir.		
<b>4. Aelodaeth</b>	4.1 Nodwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf yr Athro Jacqui Hare a mynegwyd diolch iddi am ei chyfraniad a'i ffyddlondeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. 4.2 Adroddwyd bod y broses penodi arferol yn mynd rhagddi.		
<b>5. Cyllideb y Coleg 2016/17</b>	5.1 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2016/17 ar lafar gan y Cofrestrydd. Adroddwyd bod y gyllideb yn parhau'n weithredol ac yn gyson â'r gronfa wrth gefn. 5.2 Adroddwyd y bydd cyllideb ddrafft ar gyfer 2017/18 yn cael ei baratoi yn fuan.		
<b>6. Adroddiad Yswiriant y Coleg (Eitem 6)</b>	6.1 Cyflwynwyd Adroddiad Yswiriant y Coleg gan y Cofrestrydd. 6.2 Trafodwyd a oedd yswiriant ymosodiad seiber o dan amodau'r polisi.	CR i wirio pa un a oes cwfert ymosodiad seiber gan y Coleg	
<b>7. Y Gofrestr Risg (Eitem 7)</b>	7.1 Cafwyd diweddariad ar y Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd. 7.2 Adroddwyd bod yr Uwch Reolwyr wedi gwirio pob risg strategol a gweithredol yn fanwl ac wedi ail ystyried y lefel risg. Adroddwyd bod y rhestr chwarterol hanesyddol yn parhau ond bod y gofrestr gyfredol yn cofnodi risg blynyddol. 7.3 Nodwyd newidiadau i'r risgiau strategol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 11/02 lleihad sylweddol i gyllideb y Coleg yn newid o uchel i ganolig</li> <li>• 12/01 Diffyg dealltwriaeth o ehangder gwaith y</li> </ul>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Coleg yn newid o uchel i ganolig</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 11/08 Diffyg cydweithrediad gan bartneriaethau ehangu mynediad yn newid o isel i ganolig</li> <li>• 14/01 Ansicrwydd am gyllideb y Coleg wedi 2016/17 yn newid o uchel i ganolig</li> <li>• 15/02 Diffyg sylw i'r Gymraeg wrth gynllunio'r TEF yn newid o ganolig i isel</li> </ul> <p>7.4 Trafodwyd oedi posibl wrth weithredu argymhellion adroddiad Diamond fel risg posibl i'r Coleg.</p> <p>7.5 Adroddwyd bod yr Uwch Reolwyr yn gwirio'r risgiau gweithredol ac wedi adnabod rhai risgiau y gellid eu dileu.</p>		
<p><b>8. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Ganghennau'r Coleg</b></p>	<p>8.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Ganghennau'r Coleg gan Carol Warburton.</p> <p>8.2 Adroddwyd nad oedd adroddiad i'w gyflwyno i'r pwyllgor gan nad oedd canfyddiadau i'r ymchwiliad wedi eu hadnabod eto. Adroddwyd bod y gwaith hyd yma yn amlygu'r angen am ddau ddarn o waith, y naill gan yr Archwilwyr Mewnol i adnabod themâu posibl yn deillio o'r gwaith, a'r llall i swyddogion y Coleg ar y cyd gyda phartneriaid allanol.</p> <p>8.3 Trafodwyd gwerth am arian ac effeithiolrwydd y canghennau yn ogystal â rheoli perfformiad y gangen/swyddog. Adroddwyd y byddai cytundebau cyllido newydd i'r sefydliadau yn cael eu paratoi ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2017 ymlaen a fyddai'n nodi disgwyliadau'r Coleg gan y sefydliad ar gyfer yr arian grant, ac y byddai hyn yn cynnwys y disgwyliadau o ran y canghennau yn ogystal â'r ddarpariaeth a phrosiectau. Cyfeiriwyd bod angen mynd i'r afael â strwythur y canghennau; llwyth gwaith y swyddog cangen; cyfrifoldebau datganoli i'r sefydliadau; a baich monitro a</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>thrafodwyd y posibilrwydd o ddarparu gwybodaeth i reolwr llinell y swyddog cangen fel rhan o'r broses rheoli perfformiad yn y sefydliad.</p>		
<p><b>9. Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2015/16</b></p>	<p>9.1 Cafwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2015/16 gan Carol Warburton.</p> <p>9.2 Adroddwyd bod yr adroddiad yn cynnig sicrwydd rhesymol gan nad oedd adolygiad o'r broses gyllidol wedi digwydd a nodwyd bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol i'r Coleg .</p> <p>9.3 Gwahoddwyd yr archwilwyr i ymgymryd â'r archwiliad cyllidol yn ystod tymor yr hydref 2016.</p> <p>9.4 Gwahoddwyd yr archwilwyr i ddarparu amserlen waith ar gyfer 2016/17.</p>	<p>Archwiliad cyllid</p> <p>AM i ddarparu amserlen waith</p>	<p>Tymor yr Hydref 2016</p> <p>Tachwedd 2016</p>
<p><b>10. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 4 2015/16 (Eitem 10)</b></p>	<p>10.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 4 2015/16 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y gwariant yn gyson â'r gyllideb a osodwyd ac a ddiwygiwyd yn ystod 2015/16 gan gynnwys adfer toriadau i e.e. y canghennau a'r dystysgrif sgiliau iaith.</p>		
<p><b>11. Cynllun Pensiwn USS (Eitem 11)</b></p>	<p>11.1 Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd ar adolygiad prisiad gan Gynllun Pensiwn USS i ddigwydd yn y gwanwyn 2017.</p> <p>11.2 Nodwyd bod ymarferiad cyfamod y cynllun wedi digwydd a bod yr ymddiriedolwyr yn gallu datgan bod y cyfamod (sef y sicrwydd a roddir i'r cynllun gan y sefydliadau sydd yn aelodau) yn gadarn.</p> <p>11.3 Adroddwyd bod y newidiadau i'r cynllun pensiwn sydd wedi bod yn yr arfaeth ers dwy flynedd yn dod i rym yng nghyflogres Hydref 2016 a bod staff y Coleg wedi derbyn diweddariadau a chyfle i drafod gydag Ymgynghorydd Pensiynau.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	11.4 Ceir diweddariad i'r pwyllgor yn sgil gwybodaeth bellach gan USS.		
<b>12. Materion yn Codi</b>	<p>12.1 <u>Eitem 5.5 – Sefydlu Is-gwmni</u> Adroddwyd na chyflwynwyd yr argymhelliad o sefydlu is-gwmni i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Mehefin 2016 gan nad oedd yr Athro Iwan Davies yn bresennol. Y bwriad yw cyflwyno'r argymhelliad yng nghyfarfod 23 Tachwedd 2016.</p> <p>12.2 <u>Eitem 6 – Canolfan Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Gwledig</u> Adroddwyd bod y Coleg yn derbyn ceisiadau achlysurol am gyngor a bod modd digolledi'r Coleg am unrhyw gyngor arbenigol sylweddol.</p>		
<b>13. UFA</b>	13.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.		
<b>14. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</b>	<p>14.1 Cytunwyd i drefnu cyfarfod pellach ym mis Tachwedd 2016 a nodwyd y cyfarfodydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 14 Chwefror 2017, 10.00-12.30</li> <li>• 16 Mai 2017, 10.00-12.30</li> </ul> <p>14.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.</p>		